CEFNOGI GWAITH Y MENTRAU IAITH

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2017-18



Mentrau Iaith Cymru

ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Roedd 2017/18 yn flwyddyn o ddatblygu a sefydlu prosiectau newydd i MIC a chafwyd nifer o lwyddiannau nodedig yn ystod y cyfnod. Rydym yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am gynnal lefel y grant craidd yn ystod y flwyddyn hon ac i'r Mentrau Iaith am eu cefnogaeth barhaus.

Yn dilyn llwyddiant y digwyddiad i ddathlu gwaith y Mentrau yn 2016, penderfynwyd parhau i gynnal digwyddiad cenedlaethol i holl staff y Mentrau ddod at ei gilydd, i gyd-ddysgu, rhannu arferion da, a rhwydweithio, a chafwyd diwrnod buddiol dros ben yn Theatr Hafren, Y Drenewydd gyda dros 100 yn bresennol.

Rydym yn ffodus iawn o gael tîm o staff brwdfrydig a chefnogol ym MIC, ac mae ein diolch yn fawr i Iwan Hywel, Heledd ap Gwynfor, a Marged Rhys am eu holl waith. Braf iawn oedd cael croesawu aelod newydd o staff i'r tîm yn ystod y flwyddyn hefyd, sef Llywelyn Rhys, a diolch iddo yntau am ei waith dyfal yn sefydlu'r prosiect Cymraeg Byd Busnes.

Mae'n deg dweud mai dyma fu un o brif lwyddiannau MIC yn ystod y flwyddyn dan sylw, sef sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i sefydlu a gweithredu prosiect cenedlaethol newydd sbon i hyrwyddo'r Gymraeg yn y sector preifat. Penodwyd Rheolwr Prosiect a deg Swyddog Datblygu sy'n gweithio yn y Mentrau lleol i hyrwyddo'r Gymraeg mewn busnesau.

Gwelwyd llwyddiannau gyda phrosiectau Cymuned Fideo Cymraeg a Magi Ann, a'r flaenoriaeth gyfredol yw paratoi ar gyfer asesiad marc ansawdd PQASSO a fydd yn digwydd yn fuan.

Edrychwn ymlaen felly am flwyddyn brysur a chyffrous arall i MIC a'r Mentrau Iaith. Diolch am bob cefnogaeth a chydweithrediad dros y flwyddyn.

Owain Gruffydd
CADEIRYDD

Y MENTRAU IAITH

Rhwydwaith o grwpiau cymunedol yw'r Mentrau Iaith sy'n gweithio tuag at gynyddu a chryfhau'r defnydd o Gymraeg yn ein cymunedau. Mae 22 Menter Iaith wahanol sy'n gweithio gyda dros 160,000 o bobl ledled Cymru yn ein hardaloedd lleol. Mae pob un yn wahanol, yn gwasanaethu ar gyfer anghenion penodol eu hardaloedd.

Gyda dros 4,700 o weithgareddau'r flwyddyn - o wyliau neu glybiau gofal plant i sesiynau ymwybyddiaeth iaith - mae'r Mentrau Iaith yn cefnogi pobl o bob oed ac ym mhob cam o fywyd. Gan gyfeirio at wasanaethau Cymraeg defnyddiol - mae'ch Menter Iaith yn siop-un-stop ar gyfer yr iaith, yn ein hannog i fyw, dysgu a mwynhau yn Gymraeg.

Mae'r Mentrau Iaith i bawb.

MENTRAU IAITH CYMRU

Pwrpas Mentrau Iaith Cymru yw cefnogi gwaith y Mentrau Iaith i greu cyfleoedd i gymunedau Cymraeg ffynnu ym mhob cwr o Gymru.

Sefydlwyd Mentrau Iaith Cymru (MIC) yn 1999. gan fod y Mentrau Iaith lleol wedi adnabod angen i gyfarfod yn rheolaidd, rhannu profiadau a gwybodaeth a rhoi cyfleoedd i'r Mentrau Iaith gydweithio â'i gilydd.

Fe ddatblygodd gwaith MIC yn gyson gan dyfu o dîm o un i dîm o bedwar rhwng 2004 a 2015. Rhwng 2015 a 2017 fe gydlynodd y tîm o bedwar y lefel uchaf o wasanaeth a gweithgareddau i gefnogi'r Mentrau Iaith ym mhob agwedd o'u gwaith yn effeithiol. Er i'r tîm leihau i un yn 2017 parhaodd safon y gefnogaeth a datblygwyd sawl prosiect uchelgeisiol a chroesawyd dau Swyddog Datblygu newydd i Fentrau Iaith Cymru cyn cloi'r flwyddyn ariannol 2016-17 a Rheolwr Prosiect Cymraeg Byd Busnes ym Medi 2017.

ADEILADWAITH MENTRAU IAITH CYMRU

Bwrdd Rheoli (Cenedlaethol)

Cwrdd yn chwarterol

Cynrychiolaeth o bob Menter Iaith sy'n aelodau o MIC (pob Menter yn cael anfon dau gynrychiolydd ac enwebu un ohonynt i fod yn un o Gyfarwyddwyr MIC, y Prif Swyddog fel arfer). Gwahoddir pob Prif Swyddog i'r cyfarfodydd a chroesewir cynrychiolaeth gan aelod o fwrdd rheoli pob Menter hefyd. Mae'r Pwyllgor Rheoli'n ethol Cadeirydd, Is-gadeirydd a Thrysorydd sy'n gweithredu am ddwy flynedd i arwain y Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Gweithredol.

Pwyllgor Gweithredol

Cwrdd yn fisol

Gwneud y gwaith o reoli MIC o ddydd i ddydd, cynrychioli MIC mewn digwyddiadau cenedlaethol, yn cyfweld ac apwyntio staff newydd mae'r Pwyllgor Gweithredol. Mae'r Cadeirydd, Is-gadeirydd, Trysorydd a 3 aelod yn cael eu hethol i'r Pwyllgor Gweithredol gan y rhanbarthau (2 o bob rhanbarth). Mae'r Bwrdd Rheoli yn ethol y swyddogion o'r 6 yma bob dwy flynedd, sef yr un swyddogion â'r Bwrdd Rheoli. Bydd yr Is-gadeirydd yn camu i sedd y Cadeirydd wedi dwy flynedd.

Pwyllgor Rhanbarthol

Cwrdd yn chwarterol

Cyfarfodydd rhanbarthol (Gogledd, De Orllewin a'r De Ddwyrain) yn creu cyfle i drafod pwyntiau rhanbarthol a chenedlaethol fydd yn cael eu bwydo nôl i'r Pwyllgor Gweithredol wedyn. Mae'r pwyllgorau rhanbarthol yn gwahodd y Prif Swyddog o bob Menter Iaith yn y rhanbarth gan ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd. Yr aelodau yma sy'n cynrychioli'r rhanbarth ar y Pwyllgor Gweithredol. Bydd Is-gadeirydd yn cael ei ethol bob dwy flynedd a'r Is-gadeirydd yn camu i sedd y Cadeirydd wedi dwy flynedd.

Staff MIC

Gweithredu ar benderfyniadau'r Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Gweithredol, cynnig cefnogaeth i rwydwaith y Mentrau Iaith.

EIN GWAITH YN 2016-17

MARC ANSAWDD PQASSO

Roedd PQASSO yn flaenoriaeth i MIC ar gyfer 2017-18 a gwnaethpwyd cais am asesiad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2017-18. Ar gyfer paratoi am asesiad mae llawer o weithdrefnau'r mudiad wedi datblygu gyda chyfarfodydd, threfniadaeth a materion cyfansoddiadol y mudiad wedi datblygu'n effeithiol. Bydd MIC yn derbyn yr asesiad ym mlwyddyn ariannol 2018-19. Mae aelodau staff MIC hefyd wedi bod yn weithgar yn cefnogi'r Mentrau Iaith eraill i weithredu PQASSO gan drefnu sesiwn hyfforddiant i oddeutu 40 o staff y Mentrau Iaith yn ystod ein Digwyddiad Cenedlaethol. Mae pob Menter Iaith (ac eithrio'r rheini sydd yn dod o dan reolaeth y cynghorau sir) wedi cychwyn ar y broses PQASSO erbyn hyn, gyda'r Mentrau yma wedi penodi pencampwr i arwain ar y broses gyda chefnogaeth mentoriaid MIC.

CYNRYCHIOLI'R MENTRAU IAITH

Yn ystod 2017-18 fe gynrychiolodd MIC rwydwaith y Mentrau mewn sawl digwyddiad, cyfarfodydd a fforymau. Parhaodd Elin Maher, Cadeirydd Menter Casnewydd, i gynrychioli'r Mentrau ar Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector gyda swyddogion MIC yn cynrychioli'r Mentrau Iaith mewn cyfarfodydd mudiad Dathlu'r Gymraeg, Grwp Hyrwyddo'r Gymraeg Llywodraeth Cymru, ac mewn cyfarfodydd "Cefnogi Dysgu" y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Yn 2017-18 ymunodd Amanda Evans, un o aelodau Pwyllgor Gweithredol MIC, ar banel sy'n bwrw golwg ar waith ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg. Ymysg y digwyddiadau a fynychodd MIC ar ran y Mentrau mae dathliadau 50 Merched y Wawr, digwyddiad Gofod 3, cynhadledd Cymraeg yn y Gweithle, cynhadledd Mudiad Dathlu'r Gymraeg, gweithdy 'Cymraeg mewn Manau Gwledig' Comisiynydd yr Iaith, Cynhadledd Pobl Ifanc a sawl derbyniad a digwyddiad yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol.

CYFARFODYDD A CHYNADLEDDAU

Er mwyn gwella cydweithio, rhannu arfer dda a rhwydweithio ymysg swyddogion maes y Mentrau, fe gynhaliodd MIC dri chyfarfod i'r swyddogion maes ym mhob rhanbarth yn 2017-18, yn wahanol i'r un cyfarfod cenedlaethol yn 2016-17. Mae'r adborth ganddynt yn dangos bod yn gweithio'n dda iawn gyda sawl Menter yn datblygu prosiectau ar y cyd a'r ymdeimlad o rwydwaith yn cryfhau.

Cynhaliwyd 4 cyfarfod o'r Bwrdd Rheoli yn genedlathol yn cynnwys Cyfarfod Blynyddol y cwmni. Cafwyd Cynhadledd lwyddiannus i Brif Swyddogion a Chadeiryddion yng Ngwersyll yr Urdd, Glan Llyn fis Chwefror 2018 a Digwyddiad Cenedlaethol i holl staff y Mentrau Iaith yn Theatr Hafren, Y Drenewydd fis Hydref 2017.

EIN GWAITH YN 2016-17

HYFFORDDIANT

Er mwyn datblygu sgiliau staff y Mentrau Iaith fe gynhaliodd MIC sawl sesiwn hyfforddiant yn ystod y flwyddyn yn cynnwys; Wordpress, Cymorth Cyntaf, Cynnal Sesiynau Magi Ann, Llunio Datganiadau i'r Wasg, Dylunio Poster, Cynnal Clybiau Fideo.

Yn ogystal, fe gwblhaodd Arweinydd Tim MIC gwrs Lefel 3 i fod yn diwtor cymwysterau Addysg Oedolion Cymru sydd yn galluogi MIC i ddatblygu cymwysterau priodol fydd o ddefnydd i swyddogion y Mentrau fel eu bod yn gallu cael eu hwysluo'n uniongyrchol gan MIC.

MARCHNATA A CHYFATHREBU

Lansiwyd logo newydd er mwyn cynrychioli rhwydwaith y Mentrau ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, gyda fideo i gydfynd yn esbonio 'Beth yw Menter Iaith'. Yn dilyn hyn mae delwedd brand y rhwydwaith llawer yn gryfach gyda'r logo newydd yn cael ei adnabod yn gyhoeddus a'i ddefnyddio ym mhob digwyddiad ble mae'r rhwydwaith yn cael ei gynrhychioli.

Sefydlwyd Grwŵp Marchnata gan MIC sy'n cynnwys swyddogion y Mentrau Iaith sydd â diddordeb yn y maes marchnata a chyfathrebu er mwyn datblygu syniadau am ymgyrchoedd i'r Mentrau a thrafod sut i wella'r ffordd mae'r Mentrau'n marchnata eu hunain yn genedlaethol. Yn dilyn hyn fe ddatblygodd ymgyrch Cymuned Fideo Cymraeg, tudalennau 'Say it in Cymraeg', llyfryrn 'Haf o Gerddoriaeth Gymraeg', ymgyrch 'Cefnogi Cerddoriaeth Gymraeg' a mwy.

PROSIECTAU

CYMRAEG BYD BUSNES

Yn ystod 2017-18 llwyddodd MIC i ddenu prosiect gwerth £400,000 i'r Mentrau Iaith. Mae Cymraeg Byd Busnes, sy'n cael ei weithredu gan MIC, yn un o brosiectau Llywodraeth Cymru gyda'r nod o annog busnesau bychain a chanolig eu maint i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.

Ym mis Awst 2017 fe benodwyd Llywelyn Rhys yn Reolwr Prosiect Cymraeg Byd Busnes fel rhan o dîm MIC gyda 10 Swyddog Busnes yn cael eu penodi'n rhanbarthol a'u rheoli gan fentrau penodol yn eu hardaloedd.

CYMUNED FIDEO CYMRAEG

Yn dilyn trafodaethau yn y Grŵp Marchnata roedd hi'n amlwg mai un o'r ffyrdd i annog pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg oedd eu targedu trwy un o'r cyfryngau roeddent yn eu defnyddio'n aml, sef fideo. Er mwyn cynyddu'r nifer o fideos Cymraeg eu hiaith sy'n bodoli ar Youtube, mae MIC wedi partneru gyda S4C a Boom Cymru i greu Cymuned Fideo Cymraeg.

Yn ystod ail hanner 2017-18 cynhaliwyd hyfforddiant Cynnal Clybiau Fideo gyda chyfraniadau gan Guto Rhun o Boom Cymru, Rhodri ap Dyfrig o S4C a dau swyddog maes y Mentrau Iaith er mwyn annog y Mentrau i gynnal sesiynnau creu fideos gyda phobl ifanc.

Yn ogystal, fe ddenodd MIC £12,000 er mwyn pwrcasu adnoddau ffilmio ar gyfer pob Menter Iaith. Yn dilyn hyn mae sawl Menter wedi mynd ati i sefydlu clybiau a chynnal sesiynnau yn eu hardaloedd ar y cyd gyda chlybiau ieuenctid, ysgolion, geidiaid a mwy.

MAGI ANN

Yn dilyn poblogrwydd apiau y cymeriad hoffus yma yn y gogledd, penderfynnodd MIC i bwrcasu mwy o adnoddau er mwyn ei sefydlu fel cymeriad cenedlaethol y Mentrau Iaith. Mae apiau Magi Ann yn adnodd gwych i gynorthwyo rhieni di-Gymraeg i ddarllen yn Gymraeg gyda'u plant a helpu'r plant i ddysgu darllen. Erbyn cyfnod yr adroddiad hwn roedd yr apiau, a ddatblygwyd yn wreiddiol gan Fenter Iaith Fflint a Wrecsam, wedi eu lawrlwytho dros 150,000 o weithiau. Ym mis Awst 2017 ennillodd y prosiect wobr 'Prosiect Addysg Gorau ym Mhrydain Fawr' y Loteri Genedlaethol mewn pleidlais gyhoeddus, gan ddenu gwobr o £5,000 er mwyn datblygu'r prosiect ymhellach.

CASGLIADAU CLO

Mae MIC wedi bod trwy sawl newid dros y ddwy flynedd diwethaf, a rheiny yn rhai cadarnhaol. Ymysg y datblygiadau mwyaf mae'r prosiect Cymraeg Byd Busnes, sydd yn dangos bod modd i'r Mentrau Iaith weithredu cynllun cenedlaethol fel un rhwydwaith a chydweithio'n effeithiol ac effeithlon.

Yn ogystal, mae delwedd y rhwydwaith y cryfaf mae wedi bod erioed, gyda'r logo newydd a'r fideo 'Beth yw Menter Iaith' yn cynyddu ymwybyddiaeth o waith y Mentrau Iaith yn genedlaethol.

Mae paratoi am asesiad PQASSO wedi tanlinellu holl waith y mudiad yn ystod 2017-18 ac mae sicr wedi cryfhau gweithdrefnau MIC yn ystod y broses fel bod yr endid yn un cadarn ac effeithiol.

Mentrau Iaith Cymru

MIC MEWN NIFEROEDD 2017-18

32 *Cyfle i'r Mentrau rwydweithio*

Cynrychioli mewn **26** *digwyddiad*

Trefnu **10** *sesiwn hyfforddiant*

34 *Eitem newyddion ar y wefan*